# Adroddiad Grŵp Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Paratowyd gan: Teleri Elias

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yn anelu at fynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Byddai fframwaith yn seiliedig ar lefydd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Mynd i'r afael ag Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl. |
| **Enw'r Grŵp** | Gwella Llesiant Cymunedol a Thaclo Tlodi yn Aberteifi |
| **Cadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

| **Aelodaeth y Grŵp** *(Yr enwau mewn **print trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Alison Heal,** Bethan James, **Caitlin Theodorou,** Carwyn Young, **Carys Huntley, Carys Owens,** Cathryn Morgan, Cerys Purches-Phillips, Connor Cook, Eirlys Lloyd, **Y Cynghorydd Elaine Evans**, Emily Edwards, Erin McCudden, Mari Hopkins, Martin Gillard, Melanie Walters, Non Davies, Rhiannon John, Rob Starr, Sarah Evans, Dr Sarah Groves Phillips<br>Tîm Partneriaethau: Anwen Thomas, Lynne Walters, Neris Davies, **Sara Dafydd, Steffan Gruffudd, Teleri Elias**, **Timothy Bray** | Tai Wales & West | Rhiannon Ling |
| | | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Conrad Hancock, **Geinor Jones**, Jackson Reynolds, Janet Knill, Rhian Rees, **Terri-Ann Patrick,** Trina Nealon, Vicki Howell-Williams |
| Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion | **Chesca Ross** | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Steven Davies | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies |
| Barcud Ceredigion | Catrin Owen, **Sue Thomas** | Mentera | **Ann Owen** |
| Cyngor ar Bopeth Ceredigion | Glynis Llewelyn, Juliet Morris | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | **Mandy Williams,** Mererid Lewis |
| Area 43 | Becca Head | | |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp: 15.01.2025**

**15.1 Croeso ac Ymddiheuriadau**
Croesawodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod.
**Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:** *Emily Edwards, Melanie Walters, Carwyn Young a Rhian Rees.*

**15.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24.10.24**
Nodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024 a chytunwyd eu bod yn gywir. Hefyd, cytunwyd bod y camau a gofnodwyd wedi'u cwblhau neu eu bod wedi'u cynnwys ar agenda'r cyfarfod hwn.

**15.3 Eitem Sefydlog: Diweddariad am gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (02.12.24)**
Rhoddodd Timothy Bray (TB) drosolwg o'r trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar 2 Rhagfyr 2024:

- Cafwyd trafodaeth am Deithio Llesol gan gynnwys cyflwyniadau gan Swyddogion Prosiectau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC a Rheolwr Rhaglenni Tyfu Canolbarth Cymru ynglŷn â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Hefyd, cafwyd cyflwyniad gan Reolwr Datblygu Trafnidiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar Siarter Teithio Llesol Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Rhoddodd Geinor Jones ddiweddariad am y Dull Systemau Cyfan yng nghyswllt y rhaglen Pwysau Iach (GJ), gan gynnwys gwybodaeth am ganfyddiadau'r gweithdai a gynhaliwyd ym mis Hydref yng nghyfarfodydd Grwpiau Cyflawni Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Cadarnhawyd bod canlyniadau'r ddau Grŵp Cyflawni yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r 3 gweithdy

arall a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth. Gyda hyn mewn golwg, cynigiwyd y dylid canolbwyntio ar yr is-system Hygyrchedd Bwyd wrth symud ymlaen gan ystyried fforddiadwyedd a hygyrchedd bwyd iach a bwyd nad yw'n iachus. Cytunodd y BGC i gefnogi Hygyrchedd Bwyd fel yr is-system y byddai'n canolbwyntio arno. Byddai'r camau nesaf yn cael eu hamlinellu gan GJ o dan eitem 15.6 ar yr agenda.

- Cadarnhaodd TB fod Gillian Perry, Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur, bellach wedi gadael ei rôl gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ailstrwythuro ei staff ar hyn o bryd, nid oedd olynydd iddi hyd yma ac yn sgil hynny, nid oedd Cadeirydd newydd wedi'i benodi hyd yma. Y gobaith oedd y byddai strwythur staffio newydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar waith erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol ac y gellid penodi Cadeirydd newydd i barhau â gwaith y Grŵp Cyflawni.
- Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â Gwaith Teg yng nghyfarfod y BGC ym mis Gorffennaf, roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu a'i hwyluso gan yr Is-grŵp Tlodi. Rhoddodd y Cynghorydd Catrin Davies drosolwg o'r trafodaethau a gafwyd yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp ym mis Tachwedd. Roedd y trafodaethau hyn wedi arwain at greu nifer o argymhellion a oedd wedi'u cyflwyno gerbron y BGC fel y gallai'r aelodau eu hystyried. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys llunio Siarter i ddangos ymrwymiad y BGC i Waith Teg.
- Cafodd y Traciwr Gweithgareddau, dogfen waith sy'n cael ei diweddaru i fonitro gweithgareddau'r BGC yn erbyn y Cynllun Llesiant Lleol, ei ddosbarthu fel y gallai'r Bwrdd ei ystyried cyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr. Dywedodd TB y gallai aelodau'r Grŵp Cyflawni gysylltu â'r Tîm Partneriaethau pe byddent yn dymuno gweld copi o'r Traciwr Gweithgareddau.
- Byddai'r Sesiwn Sbotolau nesaf yn canolbwyntio ar ffyrdd o weithio, asedau'r sefydliadau a'r ystadau.

Dywedodd HLL fod y syniadau ar gyfer Sesiynau Sbotolau eraill yn y dyfodol yn cynnwys cynhwysiant digidol, trafnidiaeth, sgiliau ac ymgysylltu. Nodwyd hefyd fod sgyrsiau'n cael eu cynnal gyda'r Byrddau eraill ar draws y rhanbarth ynglŷn â gweithio'n agosach ar draws ffiniau a chryfhau'r cysylltiadau â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Cadarnhaodd TB fod y Tîm Partneriaethau yn parhau i gofnodi digwyddiadau y gallai'r BGC fynd iddyn nhw yn y dyfodol i hyrwyddo gwaith y Bwrdd a chodi ymwybyddiaeth am y Cynllun Llesiant Lleol. Byddai gan y BGC stondin yn Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan ar 26 Chwefror 2025. Trafododd y Grŵp y posibilrwydd o gysylltu â Thîm Allgymorth Datblygu Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a oedd yn cynnal y digwydd fel y gellid archwilio cyfleoedd i gynnal digwyddiad tebyg yn Aberteifi.

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu gwybodaeth â'r grŵp am Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan.**

DRAFT

**Cam Gweithredu: Byddai Hazel Lloyd Lubran yn cysylltu â'r Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol i drafod y posibilrwydd o gynnal Sioe Iechyd a Llesiant yn Aberteifi.**

**<u>15.4 Diweddariad am Geredigion Oed-gyfeillgar</u>**

Roedd Melanie Walters (MW) wedi rhannu diweddariad â'r Tîm Partneriaethau cyn y cyfarfod am nad oedd yn medru bod yn bresennol:

- Cynhaliwyd cyfarfod o Fforwm Ceredigion Oed-gyfeillgar ym mis Tachwedd – thema'r cyfarfod oedd trafnidiaeth. Fel rhan o'r cyfarfod, cafwyd y cyfle i hyrwyddo Hacathon Trafnidaeth CAVO a oedd i'w gynnal rai wythnosau yn ddiweddarach. O ganlyniad i hyn, roedd Dolen Teifi wedi creu cysylltiadau â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac wedi cael gwybod am y gefnogaeth a oedd ar gael i bobl dros 50 oed.
- Cynhaliwyd gweithdy mapio yn ddiweddar lle daeth grwpiau a sefydliadau ynghyd i gael gwybodaeth fanwl am sut y gallai prosiect mapio Rupert Allan fod o fudd. Byddai Rupert yn cwrdd â'r Gwasanaeth Ieuenctid ynglŷn â phrosiect pontio'r cenedlaethau, Dolen Teifi ynglŷn â thrafnidiaeth, Yr Ardd ynglŷn â mapio gwasanaethau cymorth yn Llandysul, Sam Nicholls, hwylusydd y trydydd sector, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynglŷn â mapio gwasanaethau cymorth i gleifion yng Ngheredigion, a PACTO (Cymdeithas Sefydliadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro).
- Roedd cyfweliadau yn cael eu cynnal ar gyfer rôl Arweinydd Prosiect Ceredigion Oed-gyfeillgar.
- Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer Diwrnod Gwybodaeth, a fyddai'n cyd-fynd â'r Diwrnod Gweithredu yn erbyn Oedraniaeth ar 20 Mawrth, yng Nghanolfan Byw'n Annibynnol, Penmorfa. Roedd Cyngor ar Bopeth (CAB) yn trefnu digwyddiad arall ym mis Mehefin.
- Roedd y lleoliadau ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm ar 26 Chwefror 2025 wedi'u trefnu. Roeddent fel a ganlyn: Canolfan Rheidol yn Aberystwyth, Canolfan Byw'n Annibynnol yn Aberaeron a Neuadd Bentref Aberporth. Byddai modd hefyd ymuno â'r cyfarfod ar-lein. Yn ystod y cyfarfod, byddai Dietegydd Cymunedol yn rhoi cyflwyniad ynglŷn â maeth.
- Roedd drafft terfynol ail Gyfeiriadur Ceredigion Oed-gyfeillgar yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.
- Roedd 17 o grantiau oed-gyfeillgar wedi'u dosbarthu mewn partneriaeth â CAVO. Roedd y grwpiau yn cael eu gwahodd i wneud cais am hyd at £500 ar gyfer gweithgareddau Oed-gyfeillgar / pontio'r cenedlaethau. Roedd ceisiadau wedi dod i law oddi wrth Aberporth, Trefoil Ceredigion, Blaenporth, Coed y Bryn, Clwb Rygbi Castellnewydd Emlyn, ac Ieuenctid Tysul.
- Roedd gwaith ar y gweill i hyrwyddo Wythnos Pontio'r Cenedlaethau a oedd i'w chynnal yn fyd-eang yn ystod wythnos olaf mis Ebrill.
- Roedd Grŵp Llywio Dementia Cyngor Sir Ceredigion ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Ganolfan Heneiddio'n Well yn gweithio ar ddrafft cyntaf y Canllaw Busnes Dementia Gyfeillgar a'r rhestr hunanwirio.

DRAFT

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu'r diweddariad ar Geredigion Oed-gyfeillgar drwy e-bost.**
**Cam Gweithredu: Byddai Ceredigion Oed-gyfeillgar yn parhau ar agendâu cyfarfodydd y dyfodol.**

**15.5 Diweddariad am Ganolfan Lles Aberteifi**

Roedd Carwyn Young (CY) wedi rhannu diweddariad â'r Tîm Partneriaethau cyn y cyfarfod am nad oedd yn medru bod yn bresennol. Nid oedd fawr ddim cynnydd wedi'i wneud o ran Canolfan Lles Aberteifi ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Cyflawni. Y gobaith oedd y byddai modd trefnu sesiwn grŵp ffocws cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Cyflawni i gefnogi'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer y Ganolfan.

**15.6 Dull Systemau Cyfan ar gyfer y rhaglen Pwysau Iach – Diweddariad am y Gweithdai a'r Camau Nesaf**

Rhoddodd GJ ddiweddariad am y Dull Systemau Cyfan ar gyfer y rhaglen Pwysau Iach. Cadarnhawyd bod aelodau BGC Ceredigion wedi ymrwymo i gefnogi'r is-system Hygyrchedd Bwyd, a oedd wedi'i nodi yn y gweithdai ym mis Hydref fel y system yr oedd y rhan fwyaf am ganolbwyntio arni wrth wneud gwaith yn y dyfodol. Yn ystod y gweithdy, cadarnhaodd GJ fod y sawl a oedd yn bresennol wedi mynegi diddordeb mewn cydweithio â Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a Phrosiect Dewi ar gryfhau ymgysylltu â chymunedau. Roedd Prosiect Dewi wrthi'n datblygu rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr, a fyddai'n caniatáu i aelodau pob Grŵp Cyflawni ddatblygu mapiau asedau ynghylch mynediad i fwyd gan wneud hynny ochr yn ochr â'r gymuned. Y bwriad oedd cynnal sesiwn Aberteifi ar 20 Chwefror 2025. Byddai'r sesiwn yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, er nad oedd lleoliad wedi'i gytuno eto. Cynigiodd y Grŵp rai awgrymiadau am leoliadau gan gynnwys Coleg Ceredigion, Theatr Mwldan, Theatr y Byd Bychan ac Area 43. Byddai rhagor o wybodaeth gan gynnwys cadarnhad o'r lleoliad yn cael ei rhannu â'r Grŵp Cyflawni drwy e-bost maes o law. Hefyd, trafododd y Grŵp y posibilrwydd o gynnal yr hyfforddiant mewn ardaloedd eraill ar draws y Sir yn y dyfodol megis Aberporth.

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn cydlynu'r trefniadau o ran y lleoliad a'r trefniadau ynghylch archebu lle ar gyfer sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwr ym maes Mapio Asedau.**

Dywedodd Ann Owen (AO) fod Partneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion wedi comisiynu arolwg ynghylch arferion tyfu cymunedol yng Ngheredigion. Gellir darllen yr adroddiad terfynol yma, a gellir gweld map o fannau tyfu yng Ngheredigion yma.

Hefyd, cyfeiriodd AO at y cyfle i glywed mwy am y First Love Foundation. Ar ôl dechrau fel Banc Bwyd, roedd y First Love Foundation wedi creu model holistaidd a oedd yn mynd i'r afael â thlodi. Roeddent yn gwneud hyn drwy ystyried achosion unigol cymhleth ac

roeddent yn helpu i ddod â phobl allan o argyfwng yn barhaol. Roedd AO wedi trefnu sesiwn gyda Denise Bentley (Prif Weithredwr First Love Foundation) rhwng 14:00 a 16:00 ar 16 Ionawr 2025 lle byddai modd clywed am waith y sefydliad a gofyn cwestiynau.

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â sesiwn First Love Foundation.**

**15.7 Diweddariad am Bartneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion – Canlyniadau'r Arolwg Bwyd Da**

Rhoddodd AO grynodeb o brosiectau presennol Partneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion. Roedd y Bartneriaeth Bwyd Lleol wrthi ar hyn o bryd yn cynnal Arolwg Bwyd Da a'r bwriad yn y pen draw oedd creu Strategaeth Bwyd Da. Roedd 200 o ymatebion wedi dod i law hyd yma a byddai'r ymatebion yn cael eu defnyddio wrth ystyried camau gweithredu a phrosiectau'r Bartneriaeth yn y dyfodol. Amcan y Strategaeth a fyddai'n cael ei chreu yn sgil y gwaith hwn oedd meithrin trefniadau llywodraethu da, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gwella mynediad at fwyd fforddiadwy a maethlon, creu economi fwyd gynaliadwy, annog newid o ran arferion arlwyo a chaffael, mynd i'r afael â'r argyfwng hjnsawdd drwy arferion tyfu sy'n gyfeillgar i natur a lleihau gwastraff bwyd. Cytunodd y Partneriaid fod nifer yr ymatebion yn sylweddol a chynigiodd HLL fod y fethodoleg yn cael ei rhannu â'r BGC fel enghraifft o arfer da fel y gellid ei ailadrodd yn ystod ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Cadarnhaodd AO fod Partneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion yn bwriadu trefnu Uwchgynhadledd Diogelwch Bwyd yn ddiweddarach eleni. Dywedwyd mai'r amcan oedd dod â'r partneriaid a oedd yn gweithio yn y maes hwn ynghyd i ddatblygu cynllun gwaith ar Ddiogelwch Bwyd. Nododd AO fod llythyr wedi dod i law yn ddiweddar oddi wrth Lywodraeth Cymru a oedd yn cydnabod llwyddiannau Partneriaethau Bwyd Lleol ac yn cadarnhau y byddai'n parhau i ariannu 45 o grantiau ar gyfer pob partneriaeth.

Dywedodd Alison Heal (AH) wrth y Grŵp fod Tîm Polisi Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn cydlynu Asesiad Sylfaenol o Ffermydd Sirol Cyngor Sir Ceredigion. Er nad oedd y canfyddiadau ar gael hyd yma, byddai diweddariad yn cael ei roi i'r partneriaid unwaith y byddai'r Asesiad wedi'i gwblhau.

**15.8 Diweddariadau gan y Partneriaid / Unrhyw Fater Arall**

Dywedodd HLL y byddai cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gael ar gyfer 2025-2026. Fodd bynnag, nid oedd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch yr union swm a'r hyn a fyddai'n cael ei ddyrannu. Roedd Cynnal Y Cardi yn aros am ragor o wybodaeth. Awgrymodd HLL y dylai'r partneriaid ddechrau ystyried syniadau am brosiectau yn ardal Aberteifi gan ganolbwyntio'n benodol ar gynlluniau sy'n gysylltiedig â bwyd.

| |
|---|
| Dywedodd AH fod Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyr at Bartneriaeth Natur Lleol Ceredigion a oedd yn cadarnhau y byddai ei chyllid yn parhau am y ddwy flynedd ariannol nesaf. Roedd hyn yn sicrhau y byddai modd i'r Tîm Bioamrywiaeth barhau a thrwy hynny, byddai modd datblygu Cynllun Gwaith ar gyfer amlinellu'r blaenoriaethau a'r ceisiadau am grantiau dros y flwyddyn nesaf, ynghyd â pharatoi Cynllun ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Eleni, roedd y Tîm Bioamrywiaeth wedi dyrannu £350,000 o gyllid cyfalaf i brosiectau bioamrywiaeth sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gan ddyfarnu uchafswm o £50,000 i bob prosiect. Yn ddiweddar, roedd y themâu wedi cynnwys gweirgloddiau / dolydd, glaswelltiroedd, peillwyr, tyfu bwyd a choed ffrwythau ac roedd blaenoriaeth wedi'i rhoi i gartrefi gofal, tai cymdeithasol ac ysgolion. Roedd y Tîm Bioamrywiaeth yn bwriadu adeiladu ar themâu'r blynyddoedd blaenorol, drwy ddatblygu thema newydd ar gyfer y 2 flynedd nesaf. Gofynnodd AH i'r aelodau anfon unrhyw awgrymiadau i bioamrywiaeth@ceredigion.gov.uk.<br><br>Dywedodd HLL fod gan CAVO arian i redeg prosiectau sy'n canolbwyntio ar fannau gwyrdd. Pan fyddai'r wybodaeth ar gael, byddai'n cael ei rhannu â'r partneriaid.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser. Daeth y cyfarfod i ben am 11:18. |
| **15.9 Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 3 Ebrill 2025 rhwng 10:00 a 12:00 |
| **Crynodeb o'r camau gweithredu** |
| **1.** Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu gwybodaeth â'r grŵp am Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan. |
| **2.** Byddai Hazel Lloyd Lubran yn cysylltu â'r Tîm Allgymorth Datblygu Cymunedol i drafod y posibilrwydd o gynnal Sioe Iechyd a Llesiant yn Aberteifi. |
| **3.** Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu'r diweddariad ar Geredigion Oed-gyfeillgar drwy e-bost. |
| **4.** Byddai Ceredigion Oed-gyfeillgar yn parhau ar agendâu cyfarfodydd y dyfodol. |
| **5.** Byddai'r Tîm Partneriaethau yn cydlynu'r trefniadau o ran y lleoliad a'r trefniadau ynghylch archebu lle ar gyfer sesiwn Hyfforddi'r Hyfforddwr ym maes Mapio Asedau. |
| **6.** Byddai'r Tîm Partneriaethau yn dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â sesiwn First Love Foundation. |

DRAFT